

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
7:30YH 27^{AIN} MAWRTH 2019 YNG NGHANOLFAN BRO CERNYW

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd pawb gan Einir Willaims (EW)

1.2 Presennol: Diane Roberts (DR), Ann Vaughan (AV), R. Emlyn Williams (REW) Gwynfor Davies (GD), Elen H. Edwards (EHE), Clwyd Roberts (CR) a Gwyn Williams (GW)

1.3 Ymddiheuriadau: Garffild Lloyd Lewis (GLL) a Gwydion Jones (GJ)

EW yn adrodd ar ddechrau'r cyfarfod ei bod wedi bod ar gwrs cadeirio'n ddiweddar a fod hwn wedi bod yn ddiddorol a buddiol iawn.

Daisy Devero (PCSO) wedi cael gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod ond wedi ymddiheuro nad oedd yn medru cyraedd heno, estyn gwahoddiad iddi eto yn y dyfodol.

2 DATGAN DIDDORDEB

Dim datganiad.

3 COFNODION I'W GWIRO/PWYNTIAU'N CODI

20^{ed} Chwefror 2019

- 4 Diwrnod Casglu Sbwriel. EW yn adrodd fod llun o'r diwrnod ar y wefan ac yn y Gadlas.
Canllaw y fynwent mewn llaw, REW wedi gofyn am y giât i gael ei thrwsio gan Kevin hefyd gan fod y gwaith byth wedi cael ei gwblhau.
- 12. DR – wedi siarad efo Emyr Jones o Gynor Conwy (CCBC), wedi hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru fod dwy beipen yn rhedeg ger eu gilydd o dan y ffordd, debyg fod un wedi rhoi. CNC/CCBC yn delio – angen iddynt wybod pwy sydd yn gyfrifol cyn i waith gael ei wneud. Gwaith trwsio ffordd hefyd ar allt Ty'n Pistyll.
DR yn adrodd fod Kerry Morris (Heddlu Cwn) yn delio efo mater ci rhydd yn Glan Collen.
- 6.1 – gweler 6.1 isod.
- 6.2 – gweler 10 isod.
- 6.3 – gweler 11 isod.
- 6.4 – gweler 7.3 isod.
- 6.5 – gweler 6.2 isod.
- 7. Yswiriant – EW wedi ebostio'r cwmni yswiriant yn gofyn am gopi o'r polisi. EW am fynd drwy'r polisi ac adrodd 'nôl mis nesa.

Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan AV, eilwyd gan REW.

4 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD

4.1 Gohebiaeth ynglyn â rheolaeth traffic dros dro ger Rhyd Eden – gwaith BT. Trafodwyd fod y Cyngor ddim yn cael gohebiaeth am bob gwaith ffordd lleol. Angen cael gwybod pan fydd ffyrdd yn cau, ddim yn peri pryder pan fod gwaith cynnal a chadw'n cael ei drefnu gyda deunydd rheolaeth traffic.

4.2 Ffioedd casglu gwastraff gardd – cynghori am hyn. Er gwybodaeth i'r cynghor yn unig. Sgip cymunedol bob mis ar hyn o bryd, gweld sut fydd yn mynd. Ymateb fel unigolion os dymunir.

4.3 Cymunedau Taclus Conwy Wledig Bro Cernyw – EHE wedi gyrru gohebiaeth ymalen. AV wedi delio o dan y Clwb Garddio i wneud cais am flodau, paentio ac offer garddio ayyb – syniad da cael pawb at eu gilydd i wneud gwelliannau yn y tri pentref - £500 ar gael.

Cais ar gyfer cyfarpar codi sbwriel a siacedi wedi ei wneud gan Merched y Wawr Llangernyw ar gyfer Bro Cernyw. Os fydd y cais yn llwyddianus, byddai'r cyfarpar ar gael i'w fenthyg i'r tair cymuned gan MyW Llangernyw.

Y bwriad ydi i annog gwahanol grwpiau i gyfrannu i'w cymunedau lleol. Diolchwyd i'r Clwb Garddio/MyW am gymeryd hwn ymalen. Pecyn hyfforddiant ar gael gan y Cyngor Sir. Cyngor Cymuned i helpu i farchnata yn y pentrefi.

5 CEISIADAU CYNLLUNIO

5.1 Cais 0/46021. Apêl wedi cael ei dderbyn, cael rhwydd hynt i fynd ymlaen efo rhai amodau mewn lle.

5.2 Cais 0/45967. Wedi trafod cais blaenorol i newid defnydd adeilad allanol i annedd. Gwrthwynebiad gan y cymdogion. Trafodwyd fod y ffyrdd ddim yn addas i gyraedd y lleoliad a'i fod yn leoliad od i werthu ceir. Dim ymgynghoriad lleol wedi bod. Pryder tasai caniatad yn cael ei roi y buasai'r busnes yn tyfu/cael ei werthu ymlaen. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd cefnogi'r cais yn ddibynol fod amod personol i beidio gor-ddatblygu yn cael nodi ar y caniatad.

6 MATERION CYNGOR

6.1 Siarter Cyngorau Tref a Chymuned

EHE yn adrodd fod Cyngor Sir yn mynd i edrych mewn i hwn yn fuan gan ei fod angen ei ddiweddarau. Penderfynwyd ei adel ar yr agenda tan i'r fersiwn ddiwygiedig gael ei dderbyn i'w drafod pan ddaw i law.

6.2 Sêd wag yn ward Llangernyw

EW wedi holi Sian Branwen yn y Cyngor Sir am y broses, EW am ebostio 'nol i adrodd fod Gerallt wedi ymddiswyddo ac i gael gwybodaeth sut i fynd ymlaen/y drefn gywir i'w dilyn i hysbysu ayyb. EW i ddelio a mynd ymlaen. Cyngorwyr hefyd i holi i weld os oes diddordeb. Angen cysylltu efo Tracey, Clerc Llandudno neu Ross Morgan, Clerc Llanrwst i gael gwybodaeth am faint sydd angen cadw cofnodion a dogfennau hanesyddol y Cyngor.

Diolchodd EHE i Enlli Vaughan am baratoi'r cofnodion yn daclus. Cofnodion cyfarfodydd diweddar yn ddwyieithog ar wefan Bro Cernyw bellach. Diolchodd EW i Enlli am ofalu.

7 MATERION ARIANNOL

7.1 Mandad cyfrif banc y Cyngor

Frustration efo'r broses efo'r banc. Banc wedi cael gwared o'r cais felly bydd angen ail-gychwyn hwn.

GD wedi bod yn y banc yn Yr Wyddgrug – wedi cael cyfarwyddyd i newid enw'r ail gyfrif i 'Cronfa Bro Cernyw', angen llenwi ffurflen a'i dychwelyd i'r banc.

Enw Elwen Owen yn dal ar yr ohebiaeth ar y statements banc, angen ysgrifennu llythyr i newid hwn a chael 2 sydd yn arwyddo i arwyddo'r llythyr a'i dychwelyd i'r banc. Banc hefyd angen gweld copi o'r cofnodion pan basiwyd fod angen newid yr enw. EW am gael sgwrs efo Dylan Owen.

7.2 Tender torri mynwentydd

Un tender i mewn mis diwethaf gan Dei Evans– dim mwy wedi eu derbyn. Tender £400 y toriad. Penderfynwyd derbyn y tender. REW i adael i Dei wybod.

7.3 Eitemau ychwanegol:

Iona Edwards – wedi cytuno i gymeryd y gwaith TAW. EW yn adrodd fyddai'n well gan Iona Edwards pe tasai'r cyngor yn cario mlaen efo'r gwaith presennol ond byddai hi ym delio efo'r TAW yn unig a gwiro'r cyfrifon. EW i holi Iona os oes angen i Gwenda Cooper ddal i auditio'n fewnol hefyd.

Cyflog Enlli – angen trefnu proses iddi gyflwyno oriau ac i dalu. Trafodwyd fod Enlli i yrru oriau bob mis i ebost y Cyngor Cymuned ac i Iona (Cyfrifydd), bydd Iona wedyn yn gyrru 'nôl i gadarnhau'r cyflog i Gwynfor/Diane i'w dalu.

8 ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD SIR

Gweler gylchlythyr fis Mawrth y Cynghorydd Sir ar ddiwedd y cofnodion.

9 EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Ar yr agenda gan fod trafodaeth wedi bod yn y Cyfarfod diwethaf – dim pellach i'w drafod ar hyn o bryd ynglyn ac addurniadau gan fod safle'r Eisteddfod yn cael ei ystyried yn sgil y llifogydd diweddar.

Arddangosfa yn y Cwm, gofyn i'r Ysgol beth yw'r cynlluniau.

EHE yn sôn fod cynlluniau ar y gweill i drefnu teithiau o amgylch y pentrefi cyfagos yn ystod wythnos yr Eisteddfod. REW yn gofyn os oedd cais wedi ei wneud i newid defnydd yr arian o Gronfa Bro Cernyw, EHE yn adrodd doedd dim wedi ei drefnu eto ond byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach. Bydd angen syniadau ar gyfer deunydd yr arian gan fod Llangernyw wedi cyraedd y targed codi arian o £10,000 a'r teimlad oedd y byddai'r arian o fwy o fudd i'r ardal drwy gyfrannu tuag at gludiant i'r ymwelwyr ayyb.

10 GOHEBIAETH

- Diweddariad BDO – cyngorwyr yn falch fod hwn wedi dod i ben.
- Panel Annibynnol Cymru ar dâl cydnabyddiaeth – aros am ohebiaeth bellach.
- Eisteddfod yr Urdd – cais ariannol ar gyfer yr Eisteddfod, ddim yn lleol. Penderfynwyd peidio cyfrannu gan fod yr Eisteddfod yn Nghaerdydd.
- Cais am arian gan Ambiwlans Awyr – penderfynwyd peidio rhoi gan fod digwyddiadau lleol yn codi arian at yr achos.
- Darpariaeth Chwarae – Task and Finish. EHE am adrodd 'nôl o'r cyfarfodydd gan ei bod yn mynychu beth bynnag yn rhinwedd ei swydd. Penderfynwyd nad oedd angen i gynghorwr arall fynychu hefyd, ond gadael hyn yn agored i'r dyfodol. Trafodwyd fod tro yn y rhôd o ddefnydd parciau lleol ac adnoddau lleol yn hytrach na diwrnodau allan drud i deuluoedd.
- Pwyllgor Cymdeithasol Pandy Tudur - diolch i'r Cyngor i gadw perchnogaeth o'r blwch ffôn.

11 BILIAU

- Un Llais Cymru – Ffurflen Aelodaeth. Cytunwyd yn y pwyllgor diwethaf ei fod yn syniad da cario 'mlaen i fod yn aelodau. EHE a GW yn siomedig efo'r ddarpariaeth. Teimlo dylai fod Un Llais yn fwy annibynnol. GD yn cynnig fod cwestiwn yn cael ei godi yn y gynhadledd flynyddol pam nad oes cynyrchiolaeth well yn y Gogledd. EW yn arwyddo'r ffurflen aelodaeth. Cytunwyd cario ymlaen efo'r aelodaeth a'i dalu £155.
- Conwy CBC Cludiant Match Funding – cytunwyd i'w dalu £132.42.
- Anfoneb Cwrs Cadeirio - £40. Cytunwyd i dalu.
- Howell Jones Cyfreithwyr Solicitors – dwy anfoneb: 1) Cais am feddiant gwrthwynebus £400; 2) Cofrestru Gwirfoddol £270.00. Cytunwyd i dalu'r ddau efo'i gilydd.
- Kevin Roberts, gwaith diweddar yn y fynwent fel drafodwyd yn y pwyllgor diwethaf: £420. Cytunwyd i'w dalu.
- Bob Roberts, Tŷ Capel am staenio - £140 i'w dalu.

12 MATERION LLEOL

DR – adrodd fod cyfarfod Un Llais ym Mhentrefoelas wythnos nesaf.

AV – Meira Woosnam wedi dweud bydd y fainc solar yn barod yn fuan i'w gosod ger porth yr Eglwys yn Llangernyw, angen trefnu i rywun osod y fainc. Penderwynwyd gofyn i Kevin Roberts osod y fainc, gofyn i Dyfrig Howatson os fydd Kevin ddim ar gael.

Dŵr dros y ffordd ger Glanrafon yn ddiweddar, brigau yn blocio'r beipen.

EHE – dŵr ar y ffordd allan o'r pentref adeg y llifogydd ddiweddar. DR yn dweud fod Conwy yn delio.

REW – difrod ar y bont ger Tyn y Bryn – EW am gysylltu efo Conwy.

GD – arwyddion ffyrdd angen eu glanhau. EW i gysylltu efo Garffild

GW – arwydd Cefn Isaf wedi ei newid yn gywir erbyn hyn. Coed wedi eu torri ar ochrau ffyrdd yn ddiweddar, help mawr i weld ar y ffordd. Adrodd yn ôl i Garffild fod hyn wedi ei wneud.

13 CEISIADAU CRONFA BRO CERNYW

Penderfynwyd trafod y ddau gais yn llawn yn y cyfarfod nesaf.

Amgueddfa Syr Henry Jones wedi gofyn am gyfraniad tuag at baratoi llyfryn am gysylltiadau Bro Cernyw efo'r Eisteddfod Genedlaethol. EHE yn gofyn os oedd modd cytuno adrodd yn ôl i'r Amgueddfa gan fod amser y brin (y llyfryn i'w gyhoeddi erbyn yr Eisteddfod ym mis Awst). Wedi gofyn am £1,000 sef 80% o gôst y prosiect. Trafodwyd fod gwaddol cymdeithasol bwysig i'r prosiect. Penderfynwyd adrodd yn ôl fel eu bod yn cael cario ymlaen efo'r prosiect, fod y cyngor yn mynd i gefnogi'r cais ond ddim yn cadarnhau faint tan ar ôl trafod yn llawn cyfarfod nesaf.

14 CYFARFOD NESAF

1^{af} o Fai 2019 yng Nghanolfan Gwytherin

Cyfarfod yn dod i ben 9:45pm

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan

Cylchlythyr y Cyngorydd Garffild Lloyd Lewis, Mawrth 2019

Ar ddechrau blwyddyn ariannol newydd, dyma gyfle i grynhoi rhywfaint o'm gwaith dros y misoedd diwethaf.

'Roedd gosod cyllideb y Cyngor Sir ar gyfer 2019/20 yn broses anodd iawn. O ganlyniad i setliad ariannol gwael iawn gan Lywodraeth Cymru, chwyddiant a phwysau cynyddol ar ein gwasanaethau Gofal ac Addysg, roedd y Cyngor yn wynebu diffyg o tua £15 miliwn wrth i ni osod y gyllideb. Gan mai'r setliad sy'n gyfrifol am tua 75% o gyllideb y Cyngor, roedd yn rhaid i ni ddarganfod yr arbedion o fewn gweddill y gyllideb, gyda'r canlyniad fod yn rhaid codi Treth Cyngor 9.6%, torri cyllidebau ysgolion 3.2%, Gofal Cymdeithasol 4% a gweddill gwasanaethau'r Cyngor 7%. Roedd yn benderfyniad anodd i ni fel Cabinet, a rydw'i yn ymwybodol iawn o'r effaith y bydd hyn yn ei gael ar unigolion a theuluoedd fydd yn gorfod talu mwy o dreth, ac ysgolion, athrawon a disgyblion fydd yn gweld yr esgid fach yn gwasgu yn ein hysgolion eto eleni.

Tra ar yr un llaw yn delio hefo toriadau eleni, ar y llaw arall mae'n rhaid edrych ymlaen hefyd, ac ym maes Addysg fe fydd buddsoddiad o tua £40 miliwn i wella ysgolion ac adeiladu ysgolion newydd dros y 5 mlynedd nesaf. Fe fydd Cwricwlwm newydd a dulliau newydd o ddysgu ac addysgu yn cyrraedd ein hysgolion hefyd, a mesur newydd i warchod hawliau pobol ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol gyda dyfodiad y Mesur ALN newydd.

I droi at faterion lleol, mae dros flwyddyn wedi mynd heibio ers y tân a ddinistriodd Cartref Gofal yr Hen Ficerdy. Rydw'i wedi bod yn gweithio hefo cyn weithwyr y Cartref i geisio sicrhau eu hawliau cyflogaeth ac fe gawsom wybod yn ddiweddar fod y cwmni yswiriant wedi cytuno i drafod hefo pob unigolyn er mwyn ceisio cael setliad têt. Yn anffodus dyw'r newyddion ddim mor dda am y Cartref ei hun, gan fod banc y perchnogion wedi penderfynu cadw'r holl arian yswiriant gan adael dim ar ôl i ail godi'r adeilad. Mewn cyfarfod hefo'r perchnogion yn ddiweddar fe gefais wybod eu bod yn dal yn awyddus i ail adeiladu, a'u bod yn chwilio am ffynonellau ariannol eraill i wneud hynny.

Mae cyflwr adeilad yr Hen Efail yng nghanol y pentref wedi dirywio'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn dilyn cwynion gan unigolion a'r Cyngor Cymuned, fe gefais gyfarfod hefo'r perchennog, Mrs Annie Mackeson-Sandbach dros gyfnod y Nadolig. Roedd yn cydnabod fod angen gwneud rhywbeth gyda'r safle, ac fe gynigiodd rhoi'r Hen Efail yn rhodd i'r pentref ar brydles tymor hir, gyda rhai amodau - fel sicrwydd y byddai'r adeilad yn cael ei ddefnyddio er lles a budd y gymuned. Gofynnodd i mi gyfleu ei chynnig i'r Cyngor Cymuned neu unrhyw fudiad neu sefydliad arall yn y pentref, ac fe wnes i hynny yng nghyfarfod diwetha'r Cyngor. Er yn gwerthfawrogi'r cynnig, doedd yr aelodau ddim yn gweld y cynnig yn un derbyniol na phriodol o ran dyletswyddau'r Cyngor Cymuned.

Hoffwn apelio felly i unrhyw grwp neu gymdeithas i gysylltu â fi os oes ganddoch chi ddiddordeb yng nghynnig Mrs Mackeson-Sandbach. Os na fydd diddordeb, mae'n edrych yn debyg mai dymchwel yr Hen Efail fyddai'r unig opsiwn arall.

Rydw'i wedi son sawl gwaith o'r blaen fy mod yn awyddus i geisio sefydlu rhyw fath o gynllun Cludiant Cymunedol yn yr ardal. Gyda help Elen Edwards a Thîm Gwledig y Cyngor Sir, llwyddwyd i gael arian grant i gynnal arolwg a holiadur i geisio mesur faint o alw sydd yn yr ardal am wasanaeth o'r fath. Dwi'n gobeithio y bydd holiadur yn mynd i bob cartref yn Llangernyw, Pandy, Gwytherin a Llanfair TH maes o law. Penderfynwyd peidio cynnwys Pentrefoelas gan fod y pentref ar yr A5 a'r gwasanaethau cludiant cyhoeddus dipyn yn wahanol yno.

Ac ym Mhentrefoelas - wedi misoedd lawer o ymgyrchu a chydweithio hefo'r Cyngor Cymuned a Chynghorau Sir Conwy a Dinbych a'r Heddlu, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i dalu am camerau mesur cyflymder ar ran or ffordd rhwng Pentrefoelas a Dinbych sy'n cael ei hadnabod fel yr 'Evo Triangle'. Mae nifer o ddamweiniau wedi bod yn yr ardal yma, a gor-yrru yn broblem ers blynyddoedd. Fe ddylai'r camerau fod wedi eu gosod ar yr A543 erbyn diwedd Mawrth, ac mae cais wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru am grant i roi camerau tebyg ar ochr arall y 'triangl' sef y B4501 i lawr i Cerrig.

Hefyd ym Mhentrefoelas, fe gefais y pleser o ymweld â Meryl a'r staff yng Nghartref Bryn yr Eglwys yn ddiweddar i weld cynlluniau cyffrous i godi estyniad newydd modern i'r cartref. Mae hwn yn fuddsoddiad mawr a bydd yn gaffaeliad gwerthfawr iawn i'r ardal a'r gymuned. Y gobaith ydi y bydd y gwaith wedi ei gwblhau o fewn blwyddyn.

Yn ddiweddar hefyd, fe gefais y pleser o dywys Iwan Davies, Prif Weithredwr, a Jane Richardson, Cyfarwyddwr Economi a Lle Cyngor Sir Bwrdeistref Conwy o gwmpas y Ward. Roeddwn wedi eu gwahodd i'r plwyf er mwyn iddyn nhw ddod i adnabod yr ardal yn well a deall ein cryfderau a'n problemau. Diolch i Dewi Pentre Wern, Gwydion Ty'n Ffynnon, Gwynfor a'r criw yn Brodwaith ac Einir Ty'n Bryn am y croeso ac am sgysiau diddorol a defnyddiol iawn.

Fel Cynghorydd lleol rydw'i wedi cynorthwyo nifer fawr o unigolion a theuluoedd yn y Ward mewn meysydd fel cynllunio, ffyrdd, addysg, gofal a budd-daliadau - y rhain i gyd wrth gwrs yn faterion personol a chyfrinachol, a rydw'i yn falch iawn fod trigolion yr ardal yn e-bostio, ffonio ac yn galw yn Cymerau pan maen nhw angen cyngor a chymorth.

I gloi – mae'r cynllun sgip ail-gylchu cymunedol misol wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac yn adnodd gwerthfawr iawn. Ac ar fater ail-gylchu, fe hoffwn ddiolch i'r criw gweithgar a brwdfrydig sydd wedi bod allan ym mhob tywydd yn clirio sbwriel o ochrau ffyrdd a llwybrau'r fro.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur, gyffrous ac anodd ar adegau – felly dyma ddiolch o galon i chi am eich cymorth, eich cefnogaeth a'ch cyfeillgarwch, ac am y frainc o gael eich cynrychioli.
Garffild